PRIFYSGOL BANGOR / BANGOR UNIVERSITY

# ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU'R GYMRAEG

## Awst 2024 – Gorffennaf 2025

# ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU'R GYMRAEG PRIFYSGOL BANGOR 2024-25

## RHAGYMADRODD

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn ar weithrediad y Safonau Iaith Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor yn cyfeirio at y cyfnod rhwng 1 Awst 2024 a 31 Gorffennaf 2025.

Mae'r adroddiad yn amlinellu'r camau y mae'r Brifysgol wedi'u rhoi yn eu lle er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r Safonau Iaith ac yn tynnu sylw at rai llwyddiannau penodol ac amcanion datblygu ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae copi o Hysbysiad Cydymffurfio Prifysgol Bangor ar ein gwefan.

## GWEITHREDU'R POLISI IAITH MEWN CYFNOD O NEWID

Yn ystod 2024-25, gweithredwyd Polisi Iaith y Brifysgol, a thrwy hynny Safonau'r Gymraeg, ar draws holl ystod gweithgareddau'r Brifysgol. Gwnaethpwyd hynny wrth ddatblygu'r Gymraeg yn y sefydliad yn unol â gofynion statudol a chynlluniau strategol i ddarparu gwasanaethau ac i ddatblygu'r ddarpariaeth academaidd. Yn sgil proses ailstrwythuro sylweddol a roddwyd ar waith yn ystod ail hanner y flwyddyn adrodd, datblygwyd gwaith y Brifysgol ym maes y Safonau Polisi.

Er mwyn adlewyrchu'r flwyddyn yn ei chyfanrwydd, edrychir yn yr adroddiad hwn ar y gwaith datblygu a hyrwyddo a wnaed ochr yn ochr â'r gwaith polisi a fu'n rhan o'r weithgaredd ailstrwythuro yn ystod ail hanner y flwyddyn. Rhoddir sylw i'r gwasanaethau newydd a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn, sut yr aethpwyd ati i roi'r Gymraeg ar waith mewn dulliau newydd gyda myfyrwyr a sut y bu i'r Brifysgol ymwneud â'r gymuned ehangach yn y Gymraeg.

Bu'n flwyddyn a welodd ddatblygiadau sylweddol a phellgyrhaeddol. Gosodwyd y pecyn hyfforddiant ar y Polisi Iaith yn rhan o becyn hyfforddiant mandadol ehangach y Brifysgol ac, erbyn diwedd Mehefin 2025, roedd 977 aelod staff wedi cwblhau'r pecyn. Mae'r ffaith bod modd cyfeirio at y pecyn mewn sesiynau hyfforddiant, mewn cyfarfodydd ac yn y sesiynau cynefino ar gyfer staff newydd wedi golygu bod mynediad staff at y Polisi Iaith wedi cynyddu. Mae hefyd wedi golygu bod un o egwyddorion craidd y Polisi wedi ei danlinellu, sef bod ei weithrediad yn gyfrifoldeb ar bawb.

Datblygiad sylweddol arall oedd gweithredu cynllun Mwy na Geiriau: Y Gymraeg fel Sgíl Glinigol gyda myfyrwyr cyntaf rhaglen Feddygaeth y Brifysgol. Datblygwyd y cwrs gan diwtoriaid arbenigol ac arweinwyr polisi yng Nghanolfan Bedwyr, mewn cydweithrediad â staff clinigol a staff cymorth yn yr Ysgol Feddygol. Cyflwynwyd y cwrs ar lefelau Blasu, Canolradd a Hyfedredd i gefnogi polisi 'Mwy na geiriau' Llywodraeth Cymru wrth ymgorffori'r Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Yn ogystal â gwersi iaith, darparwyd hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i'r myfyrwyr, er mwyn rhoi dealltwriaeth lawn iddynt o'r dirwedd ieithyddol y byddan nhw'n gweithio ynddi.

Mae’r Brifysgol hefyd yn ymwybodol iawn o’i chyfrifoldeb i gyfrannu at ffyniant y Gymraeg yn y gymuned yn ehangach, ac mae hanes hir yn y Brifysgol o ddatblygu adnoddau er budd sefydliadau a gweithleoedd eraill. O dan nawdd cronfa ARFOR, cafodd Pecyn Recriwtio Gweithlu Dwyieithog, a ddatblygwyd gan dîm o’r Ysgol Hanes, y Gyfraith a Gwyddorau Cymdeithas, ei lansio mewn digwyddiad a fynychwyd gan hyd at 100 o gyflogwyr ac ymarferwyr o bob rhan o Gymru. Diolch i’r un gronfa, llwyddodd Canolfan Bedwyr i ddatblygu ap i newid arferion iaith mewn gweithleoedd, yn seiliedig ar y project newid ymddygiad, ARFer. Ceir mwy o wybodaeth am yr ap ARFer yng nghorff yr adroddiad hwn.

Yn ogystal â datblygiad yr ap uchod, cafwyd datblygiadau eraill a oedd wedi eu gwreiddio mewn dulliau newid ymddygiad yn ystod 2024-25. Yn eu plith, prosiect wedi ei arwain gan ymchwilwyr a staff Prifysgol Bangor, dan nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a oedd yn edrych ar y modelau dysgu, asesu a chefnogaeth iaith sydd fwyaf apelgar i fyfyrwyr dwyieithog nad ydynt yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog. Yn dilyn cyfnod o ymchwilio i ymyriadau addysgol llwyddiannus er mwyn hybu dewisiadau iaith positif a gwella hyder wrth ddefnyddio’r iaith llai ei defnydd o fewn addysg uwch yng Nghymru, crëwyd compendiwm o arferion da i’w rhannu. Cam olaf y prosiect yw cynnal dwy weithgaredd beilot ym Mhrifysgol Bangor a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd, a fydd yn rhoi casgliadau’r ymchwil ar waith, yn ystod 2025-26.

Yn nechrau’r flwyddyn academaidd, penodwyd i rôl newydd sydd wedi ei chyllido gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol am ddwy flynedd yn y lle cyntaf. Mae’r Swyddog Hyrwyddo Addysg Uwch drwy’r Gymraeg wedi ei leoli yng Nghanolfan Bedwyr ac yn gweithio’n benodol ar gefnogi myfyrwyr cyfredol sydd eisoes yn astudio drwy’r Gymraeg. Mae’n eu cynorthwyo i recriwtio i’r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg trwy gynnal digwyddiadau hyrwyddo a chefnogi, ac, yn arwyddocaol, yn llunio a chynnal mentrau i annog myfyrwyr Cymraeg-eu-hiaith i ymgysylltu ymhellach â’r ddarpariaeth academaidd Gymraeg yn y Brifysgol. Yn hyn o beth, mae’r rôl hon yn parhau â thema newid ymddygiad. Wrth greu deunyddiau newydd ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol a chreu podlediad newydd sy’n holi cyn-fyfyrwyr adnabyddus am eu profiadau o astudio drwy’r Gymraeg, mae’r rôl wedi cael impact sylweddol mewn cyfnod cymharol fyr. Mae’n rôl sydd wedi ychwanegu’n sylweddol at waith ymgysylltu a chefnogi myfyrwyr sy’n siarad Cymraeg..

Wrth i’r flwyddyn fynd yn ei blaen, rhoddwyd proses ailstrwythuro sylweddol ar waith ar draws y Brifysgol, a arweiniodd at gyfnodau o ymgynghori ar y cynlluniau a roddwyd gerbron gan y Pwyllgor Gweithredu. Drwy gydol y broses hon, cynhaliwyd asesiadau effaith ar y Gymraeg yn y Gwasanaethau Proffesiynol ac ar draws y colegau academaidd. Cyhoeddwyd yr asesiadau yma wrth ymgynghori a gofynnwyd cwestiwn penodol am y Gymraeg yn yr ymgynghoriad yn ogystal. Adolygwyd yr asesiadau effaith hyn yn dilyn yr ymgynghoriad. Yn ystod yr ymgynghoriad, cyflwynodd dau bwyllgor gyda chyfrifoldeb dros y Gymraeg adborth penodol ar effaith posib cynlluniau ar allu’r sefydliad i weithredu drwy’r Gymraeg o safbwynt gwasanaethau a darpariaeth academaidd.

Bydd union effaith y broses ailstrwythuro yn amlygu’i hun dros y flwyddyn i ddod ac wedi hynny, wrth i’r Brifysgol addasu i weithlu llai ei nifer sydd wedi ei adleoli a’i ddiwygio. Fodd bynnag, mae strwythur gadarn yn ei le sydd yn caniatáu i’r Brifysgol i fonitro effaith cynlluniau a gweithredoedd sefydliadol ar y Gymraeg gan weithio tuag at geisio sicrhau effaith gadarnhaol.

Gyda’r uchod mewn cof, felly, priodol fyddai cloi’r trosolwg hwn gyda darlun o sgiliau iaith y gweithlu ar ddiwedd y cyfnod adrodd (a oedd hefyd yn ddiwedd cyfnod yr ailstrwythuro).

Yn 2023-24, roedd 43% o staff yn nodi eu bod yn siarad Cymraeg. Wrth edrych ar ystadegau cyffelyb y flwyddyn 2024-25, gwelir bod y ganran hon wedi codi i 44%. Mae'n galonogol nodi na fu gostyngiad yng nghanran y staff sy'n nodi eu bod yn siarad Cymraeg yn sgil yr ail-strwythuro. Teg nodi, fodd bynnag, fod 235 o aelodau staff ar goll o'r data yma. Oherwydd newidiadau yn ein systemau Adnoddau Dynol, nid oes gennym gofnod o lefel iaith staff a benodwyd yn fwyaf diweddar. Bydd y Brifysgol yn annerch hyn yn 2025-26. Mae'r Brifysgol yn llwyr ymwybodol o bwysigrwydd edrych ar *niferoedd* staff sy'n siarad Cymraeg (ac nid dim ond canrannau) a'u dosbarthiad ar draws y sefydliad wrth ddadansoddi a deall ein capasiti dwyieithog gwirioneddol. Ar lefel sefydliad-gyfan, mae dros 180 o aelodau staff yn llai o un flwyddyn i'r llall, gyda 60 ohonynt yn staff rhugl eu Cymraeg.

Daw sawl her o golli'r niferoedd yma a bu i'r Brifysgol ystyried yr heriau a'r risgiau yn ystod y broses asesu effaith. Bydd yn allweddol rheoli'r risgiau hyn wrth i'r Brifysgol symud ymlaen tuag at y cyfnod nesaf yma yn ei hanes.

## SAFONAU CYFLENWI GWASANAETHAU

Llwyddwyd i gyflawni yn erbyn pob un o'r amcanion a osodwyd yn adroddiad 2023-24.

Mae Prifysgol Bangor yn hyderus ei bod wedi perfformio'n dda wrth gydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau. Yn greiddiol i hyn, mae systemau yn eu lle sy'n sicrhau:

- bod staff sy'n siarad Cymraeg yn gweithio mewn derbynfeydd ac ar ddesgiau cymorth;
- bod holl ystod ein gwasanaethau ar gael i fyfyrwyr a staff yn Gymraeg ac i'r cyhoedd lle bo hynny'n berthnasol;
- bod arwyddion yn ddwyieithog;
- bod cyfle i fyfyrwyr a phartneriaid ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyflwyno ceisiadau am arian neu wrth dendro i gynnig gwasanaeth;
- bod mecanwaith yn ei lle er mwyn adnabod unrhyw ddiffyg yn ein gwasanaethau

Law yn llaw â sicrhau bod y gwasanaethau yn eu lle, rydym yn cydweithio gyda'n myfyrwyr i sicrhau bod ganddynt wybodaeth lawn am wasanaethau Cymraeg, bod ganddynt yr hyder i'w defnyddio a'u bod yn deall gwerth y sgiliau Cymraeg sydd ganddynt.

Llwyddwyd i gyflawni pob un blaenoriaeth ddatblygu a osodwyd ar gyfer y flwyddyn ac yn unol â'r hyn a oedd wedi ei nodi yng Nghynllun Gweithredu 2024-25. Mae'r 'siop un stop' ar gyfer darparu gwasanaethau proffesiynol yn rhan o gynlluniau'r ailstrwythuro ac ni fu'n weithredol yn ystod y cyfnod adrodd o ganlyniad.

Wrth ystyried y datblygiadau a'r gweithgareddau a gafwyd wrth gyflawni, cefnogi a chydnabod gwasanaethau Cymraeg yn ystod 2024-25, tynnir sylw at yr enghreifftiau isod:

### CYFLWYNO, HYBU A PHROFI EFFEITHOLRWYDD GWASANAETHAU

- Fel y crybwyllwyd ar ddechrau'r adroddiad hwn, roedd 977 aelod staff wedi cwblhau'r pecyn hyfforddiant mandadol ar y polisi iaith erbyn mis Mehefin 2025. Mae'r pecyn yn un o blith nifer o gyrsiau y mae'r Pwyllgor Gweithredu wedi eu dynodi fel rhai mandadol sydd angen eu cwblhau'n llawn bob dwy flynedd. Mae wedi cynyddu ymwybyddiaeth staff o'r Polisi Iaith ac wedi eu harfogi â'r wybodaeth ar sut i'w weithredu'n llwyddiannus.

- Parhaodd y Gwasanaethau Digidol i gynnig cefnogaeth ddwyieithog i staff a myfyrwyr yn ogystal â datblygu datrysiadau technolegol dwyieithog.. Datblygwyd y prosiect eBortffolio ar y cyd â'r Coleg Meddygaeth ac Iechyd a Gweinyddiaeth Myfyrwyr. Nod y prosiect yw digideiddio gwaith cofnodi cynnydd a marcio gwaith myfyrwyr sydd ar leoliad ar draws nifer o raglenni o fewn y Coleg gan gynnwys Meddygaeth a Bydwreigiaeth. Adnabuwyd yr angen am welliannau yn y ddarpariaeth iaith Gymraeg, ac mae cynllun gweithredu wedi'i gytuno gyda'r gwaith dan arweiniad Gwasanaethau Digidol i ddechrau ym mis Medi 2025, gyda'r nod o'i gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2025.

- Addaswyd un o'r prif ddeunyddiau print sy'n cael defnydd helaeth yn nyddiau agored y Brifysgol, gan gyflwyno'r holl ystod o gyfleoedd i fyfyrwyr newydd ddysgu neu ddatblygu eu Cymraeg. Mae'r daflen 'Dysgu a Datblygu dy Gymraeg...Dy Ffordd Di!' yn cyfeirio'n benodol

at gwrs hunan-astudio ar lefel Blasu sy'n cael ei gynnig i fyfyrwyr yn ystod gweithgareddau'r Wythnos Groeso ac yn pwysleisio bod y Gymraeg ym Mangor yn perthyn i bawb. Mae wedi profi'n adnodd defnyddiol yn ystod Ddyddiau Agored.

- Cafwyd 119 cofrestriad ar gwrs Blasu hunan-astudio i fyfyrwyr yn ystod y flwyddyn. Mae'r cwrs 10-awr yma wedi bod yn hynod boblogaidd o ganlyniad iddo gael ei hyrwyddo yn ystod gweithgareddau'r Wythnos Groeso – yn cynnwys sesiynau 'Cyflwyniad i'r Gymraeg' ar gyfer myfyrwyr newydd.

- Er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau i fyfyrwyr, staff a'r cyhoedd yn gweithredu'n unol â'r Polisi Iaith, cynhaliwyd dau weithgaredd siopwr cudd yn ystod 2024-25. Yn y ddau achos, aseswyd bod y gwasanaethau wedi eu darparu'n briodol ar y cyfan. Er enghraifft, mewn un achos, llwyddwyd i ddelio ag ymholiad yn llwyr drwy'r Gymraeg ond ni ddefnyddiwyd cyfarchiad dwyieithog ar y ffôn ar ddechrau'r sgwrs – rhywbeth a allai fod wedi dylanwadu'n sylweddol ar hynt yr ymholiad penodol hwnnw. Adroddwyd y canlyniadau hyn gerbron y Grŵp Polisi Iaith Gymraeg, sydd â'i aelodaeth yn cynnwys rheolwyr yr adrannau hynny a gafodd eu profi, a bu'n gyfle i'r holl aelodau atgoffa eu staff o bwysigrwydd elfennol cyfarch yn ddwyieithog ar y ffôn.

- Addaswyd rhaglen dyddiau agored y Brifysgol yn 2024-25, a hynny'n dilyn cwyn a dderbyniwyd ym mis Awst 2024 gan ymwelydd a deimlai nad oedd y Gymraeg yn ddigon presennol ym mhrif sgyrsiau'r diwrnod agored a fynychodd gyda'i blentyn. Fe'i cofnodwyd fel cwyn swyddogol, gan ddechrau ymchwiliad mewnol a esgorodd ar newid i raglen dyddiau agored maes o law. Bellach, mae sesiwn groeso benodol yn y Gymraeg, ynghyd â sesiynau yn y Gymraeg neu'n gwbl ddwyieithog ar faterion megis cyllid a bywyd myfyriwr.

## RHOI'R GYMRAEG AR WAITH GYDA MYFYRWYR

- Cafwyd gwaith paratoi sylweddol yn ystod y flwyddyn ar gyfer datblygiad arwyddocaol ym maes gweinyddiaeth myfyrwyr. Mae'r drefn gofrestru ddiofyn ar fodiwlau cyfrwng Cymraeg bellach yn ei lle ar gyfer myfyrwyr sydd wedi nodi wrth gofrestru eu bod yn siarad Cymraeg. 2025-26 fydd y flwyddyn academaidd gyntaf i roi'r drefn newydd ar waith a bydd modd asesu effeithiolrwydd y cynllun hwn yn yr adroddiad blynyddol nesaf.

- Un o'r datblygiadau mwyaf arwyddocaol a phellgyrhaeddol a gafwyd i'r cynnig academaidd yn ystod 2024-25 oedd rhoi ar waith brosiect 'Mwy na geiriau: Y Gymraeg fel Sgíl Glinigol'. Datblygwyd y cwrs peilot gan diwtoriaid arbenigol ac arweinwyr polisi yng Nghanolfan Bedwyr, mewn cydweithrediad â staff clinigol a staff cymorth yn yr Ysgol Feddygol ac o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Cyflwynwyd y cwrs ar lefelau Blasu, Canolradd a Hyfedredd i gefnogi polisi *Mwy na geiriau* Llywodraeth Cymru wrth ymgorffori'r iaith Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Yn ogystal â gwersi iaith, darparwyd hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i'r myfyrwyr, er mwyn rhoi dealltwriaeth lawn iddynt o'r dirwedd ieithyddol y byddan nhw'n gweithio ynddi. Ar y modiwl, bu'r myfyrwyr meddygol yn datblygu geirfa ac ymadroddion penodol i faes meddygaeth dros ddau semester o sesiynau wythnosol – gan eu

paratoi i weithio mewn rhanbarth lle mae'r iaith Gymraeg yn cael ei siarad gan nifer sylweddol o drigolion, yn aml fel iaith gyntaf. Roedd y cwrs hefyd yn cynnwys siaradwyr gwadd, megis staff clinigol a staff cymorth o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr; a staff o wasanaethau brys rheng flaen eraill y rhanbarth – Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

- Ar ddechrau'r flwyddyn academaidd ac yn dilyn bwrlwm yr Wythnos Groeso, cynhaliwyd digwyddiad anffurfiol ar gyfer myfyrwyr Cymraeg eu hiaith yn Pontio. Yn ystod y sesiwn, cafwyd cyflwyniadau byr ar y gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael iddynt fel myfyrwyr, gan bwysleisio eu hawliau i gyflwyno gwaith academaidd yn y Gymraeg ac i dderbyn gwasanaethau Cymraeg gan y Brifysgol. Dilynwyd y cyflwyniadau gyda digwyddiad cymdeithasol anffurfiol rhwng y myfyrwyr a staff academaidd a phroffesiynol y sefydliad. Mynychwyd y digwyddiad gan oddeutu 70 o fyfyrwyr a bu'n gyfle gwych i arddangos y gefnogaeth sydd ar gael i fyfyrwyr ymwneud â'r Gymraeg yn y Brifysgol.

- Fel rhan o'r ymdrech i gyplysu'r Gymraeg â chyflogadwyedd, cynhaliwyd digwyddiad arbennig am y Gymraeg yn ystod gweithgareddau 'Wythnos Cyflogadwyedd' y Brifysgol. Roedd 'Cymraeg yn y Gweithle – dathlu dwyieithrwydd' yn gyfle i wobrwyo'r myfyrwyr hynny oedd wedi ennill y Tystysgrif Sgiliau Iaith ac i siaradwyr gwadd amlwg rannu eu profiadau nhw o ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith. Bu'n gyfle hefyd i'r Swyddog Hyrwyddo Addysg Uwch drwy'r Gymraeg gynnal sesiwn banel gyda'r siaradwyr gwadd – fformat a ddatblygwyd maes o law yn sail ar gyfer podlediad 'Bangor be wedyn?'.

- Bu newid ymddygiad yn thema barhaus yng ngwaith y Swyddog Hyrwyddo Addysg Uwch yn ystod y cyfnod. Derbyniwyd nawdd o gronfa fewnol i greu cyfres podlediad 'Bangor be wedyn?', cyfres 6-phennod gyda graddedigion y Brifysgol sydd bellach yn ffigurau adnabyddus yn eu meysydd. Mae'r gronfa, Cronfa Bangor, wedi ei hariannu gyda chyfraniadau gan gyn-fyfyrwyr. Yn llinyn drwy'r holi a'r gyfres drwyddi draw oedd eu penderfyniadau i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn y Brifysgol ac effaith hynny ar eu gyrfaoedd. Mae'r gyfres bellach yn adnodd sydd wedi ei rannu'n eang yn y Brifysgol a thu hwnt ac yn cael ei ddefnyddio gan staff recriwtio'r sefydliad yn eu gwaith ymgysylltu ag ysgolion uwchradd lleol. Yn ogystal â phodlediad, cynhyrchwyd cyfres o fideos ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol – TikTok yn bennaf – a oedd yn cynnwys myfyrwyr cyfredol yn 'chwalu'r chwedlau' am astudio drwy'r Gymraeg. Eto, dyma adnodd gwerthfawr sydd wedi cael cryn sylw gan gynulleidfaoedd mewnol ac allanol ac sy'n mynd ati i newid canfyddiad darpar fyfyrwyr o'r hyn y mae'n ei olygu i astudio drwy'r Gymraeg ar lefel addysg uwch. Roedd y gweithredoedd uchod oll wedi eu seilio ar dechnegau newid ymddygiad a derbyniodd y Swyddog hyfforddiant penodol ar y technegau hynny mewn cyfres o weithdai a gynhaliwyd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

## Y GYMRAEG A CHYMUNED EHANGACH Y BRIFYSGOL

Mae'r Brifysgol yn ymwybodol iawn o'i chyfrifoldeb i gyfrannu at ffyniant y Gymraeg yn y gymuned yn ehangach a bod ei pherthnasedd i fywyd bod dydd yn cael ei atgyfnerthu a'i gefnogi gan ei gwaith. I'r diben hwn, rydym yn sicrhau:

- bod y Gymraeg yn amlwg, yn weledol ac yn cael ei defnyddio yn ein digwyddiadau wrth ymgysylltu gyda'r gymuned leol
- ein bod yn datblygu adnoddau dysgu ac addysgu sy'n dyfnhau gallu ein myfyrwyr i ymdrin â'u pwnc yn y Gymraeg yn y Brifysgol ac wedi graddio
- ein bod yn datblygu adnoddau ymarferol i gefnogi'r Gymraeg

Dyma rai o uchafbwyntiau 2024-25:

- Mewn blwyddyn pan fu'r Brifysgol yn dathlu ei phen-blwydd yn 140 oed a neuadd breswyl Gymraeg John Morris-Jones yn nodi hanner canrif o'i bodolaeth, bu pwyslais dealladwy ar edrych yn ôl yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Cafodd pen-blwydd y neuadd ei ddathlu yng nghanolfan Pontio mewn diwrnod llawn o hel atgofion trwy sgwrs a chân, a bu rhai o drigolion presennol y neuadd yn rhan o Gôr Aelwyd JMJ a gymerodd ran mewn cyngerdd mawreddog yng nghwmni Bryn Terfel i gofnodi can mlynedd a deugain o addysg uwch ym Mangor.

- Ym mis Awst 2024 ac yn ôl yr arfer, roedd gan y Brifysgol bresenoldeb amlwg ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd. Yn ogystal â chynnal gweithgareddau ar gyfer plant a phobl ifanc, bu'n gyfle hefyd i arddangos arbenigeddau staff academaidd y Brifysgol. Cafwyd sesiynau trafod a lansiadau amrywiol ar y stondin – o sesiwn ar hanes sefydlu'r Brifysgol; lansio clinig cyfraith newydd; sesiynau pynciol ynghyd â thrafodaethau ar faterion cymdeithasol o bwys, megis goddefgarwch yn yr oes gyfredol a rôl y celfyddydau yn adfywiad y Gymru wledig. Roedd y digwyddiadau'n fodd o bwysleisio ymdrechion Bangor i gynnwys y Gymraeg mewn ystod eang o feysydd gwaith.

- O ganlyniad i ddyfarnu grant o gronfa Grantiau Bach y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, rhyddhawyd 3 pennod yng nghyfres newydd y podlediad poblogaidd, 'Yr Hen Iaith'. Wedi ei gyd-gyflwyno gan Yr Athro Jerry Hunter o Ysgol y Gymraeg y Brifysgol, mae'r podlediad wedi profi i fod yn un poblogaidd yn genedlaethol ac yn benodol â disgyblion Blynyddoedd 12 a 13, wrth iddo drafod testunau llenyddol sydd ar feysydd llafur Cymraeg. Roedd y grant a alluogodd y gwaith i greu tair pennod benodol ar destunau gosod Lefel A yn un o chwech a ddyfarnwyd i staff y Brifysgol yn ystod 2024-25

- O dan nawdd cronfa ARFOR, cafodd Pecyn Recriwtio Gweithlu Dwyieithog, a ddatblygwyd gan dîm o'r Ysgol Hanes, y Gyfraith a Gwyddorau Cymdeithas, ei lansio mewn digwyddiad a fynychwyd gan hyd at 100 o gyflogwyr ac ymarferwyr o bob rhan o Gymru. Mae'r pecyn yn ffrwyth ymchwil doethurol sy'n mynd ati i gyflwyno twlcit o arfer dda wrth recriwtio, templedi defnyddiol ar gyfer llunio swydd ddisgrifiadau yn ogystal â theipoleg ddadlennol ynghylch y mathau o unigolion y gellir eu targedu ar gyfer swyddi a rolau sy'n mynnu sgiliau dwyieithog.

- Mae Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin, sydd wedi ei gartrefu yn y Brifysgol, wedi cynnal arlwy gynhwysfawr o gyrsiau a digwyddiadau cefnogi dysgwyr yn ystod 2024-25. Mae'r darparwr yn darparu yng nghymunedau rhanbarth y Brifysgol a thu hwnt drwy gyrsiau wyneb yn wyneb ac yn rhithiol.

- Llwyddodd aelod o Dîm y We yn y brifysgol, Gwenno Gwilym, i gipio'r wobr Ffuglen Gymraeg yng ngwobrau Llyfr y Flwyddyn am ei nofel gyntaf, *V + Fo*. Ffrwyth astudiaethau ôl-radd yn y Brifysgol oedd y nofel ac fe'i canmolwyd yn eang am y modd y cyflwyna ddarlun real o deulu dwyieithog yn y Gymru gyfoes.

## BLAENORIAETHAU DATBLYGU

| CAM GWEITHEDU | CYFRIFOLDEB |
|---|---|
| Gweithredu trefn o gofrestru diofyn ar gyfer modiwlau blwyddyn gyntaf cyfatebol. | Gwasanaethau Myfyrwyr / Canolfan Bedwyr / Gwasanaethau Digidol |
| Sefydlu gofod astudio penodol ar gyfer myfyrwyr Cymraeg eu hiaith. | Undeb / UMCB / Canolfan Bedwyr |
| Creu adran newydd ar y wefan yn rhoi gwybodaeth am y Gymraeg yn y Brifysgol i ddarpar fyfyrwyr sydd wedi cofrestru ar gyfer Diwrnod Agored. | Tîm Marchnata Brand / Canolfan Bedwyr |
| Sicrhau bod y Gymraeg yn ganolog i ddatblygiadau ym maes gwasanaethau myfyrwyr yn sgil yr ail-strwythuro. Cynnal ymgyrch i hyrwyddo defnydd myfyrwyr o'r Gymraeg yng nghyd-destun y datblygiadau hyn. | Gwasanaethau Myfyrwyr / Canolfan Bedwyr |

## SAFONAU LLUNIO POLISI

Llwyddwyd i gyflawni yn erbyn pob un o'r amcanion a osodwyd yn adroddiad 2023-24.

Mae gan Brifysgol Bangor brosesau adrodd clir wrth i bolisïau, strategaethau a chynlluniau newydd gael eu datblygu. Mae rôl Dirprwy Is-ganghellor y Gymraeg yn un sy'n bodoli ers sawl blwyddyn. Mae deilydd y swydd yn aelod o Bwyllgor Gweithredu'r Brifysgol ac yn cadeirio Pwyllgor y Gymraeg a Diwylliant. Mae'r pwyllgor yma yn un o bwyllgorau canolog y Brifysgol a'r cofnodion yn mynd gerbron y Pwyllgor Gweithredu a Senedd y Brifysgol. Mae Ysgrifennydd y Brifysgol hefyd yn aelod o'r pwyllgor hwnnw a'r Pwyllgor Gweithredu. Golyga hyn fod modd amlygu ac eiriol dros faterion yn ymwneud â'r Gymraeg ar haen uwch reolaeth y Brifysgol. Mae Pwyllgor Materion Cymreig y Cyngor, sy'n cael ei gadeirio gan aelod lleyg o'r Cyngor, hefyd yn goruchwylio ein cydymffurfiaeth â'r Safonau ac mae cofnodion yr is-grŵp hwnnw yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfodydd llawn y Cyngor.

Yn ystod 2024-25, blwyddyn a welodd gryn wyro arnynt o ganlyniad i'r weithgaredd ailstrwythuro, cafwyd y datblygiadau canlynol yng nghyd-destun y Safonau Llunio Polisi:

### ASESU EFFAITH AR STRWYTHURAU ARFAETHEDIG

- Yn ystod proses ailstrwythuro 24/25, gweithredwyd y Safonau Llunio Polisi yn llawn gan roi canllawiau Comisiynydd y Gymraeg ar waith. Rhoddwyd cyflwyniad i Grŵp Cynllunio a

Thrawsnewid y Brifysgol, sef y grŵp oedd yn cymeradwyo ceisiadau diswyddo gwirfoddol, ar y Safonau Llunio Polisi. Yn sgil hyn, aseswyd effaith cynlluniau ar y Gymraeg wrth iddynt gael eu llunio a chyhoeddodd y Brifysgol yr asesiadau yma wrth ymgynghori. Ail-aseswyd y cynlluniau yn sgil ymatebion i'r ymgynghoriad. Cynhaliwyd cyfarfod rhwng Pennaeth Polisi a Datblygu Canolfan Bedwyr ac awduron pob Achos Dros Newid a lluniwyd asesiad effaith y Gymraeg. Yn yr asesiadau effaith hyn, cyflwynwyd dadansoddiad ystadegol o niferoedd staff a'u gallu ieithyddol. Ystyriwyd effaith posib ar y Gymraeg o safbwynt: capasiti staffio dwyieithog; cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg; darpariaeth academaidd drwy'r Gymraeg a gwasanaethau Cymraeg. Nodwyd effeithiau cadarnhaol, niwtral a negyddol gan nodi camau lliniaru lle bo hynny'n bosib. Gofynnwyd cwestiwn penodol am y Gymraeg yn ystod y broses ymgynghori a bu i'r awduron ail-ymweld â'r cynlluniau yn dilyn yr ymgynghoriad.

- Roedd y broses asesu effaith, felly, yn un gynhwysfawr. Un o'r heriau a gafodd ei adnabod yn ystod y broses oedd yr angen i leihau'r gweithlu heb orfod gwneud hynny drwy ddiswyddiadau gorfodol. Roedd tensiwn ar brydiau rhwng yr angen i sicrhau a gwarchod capasiti dwyieithog y sefydliad a rhoi cyfle i staff oedd yn siarad Cymraeg i fanteisio ar gynigion diswyddo gwirfoddol.

- Cyflwynwyd Cynllun 10 Safon yn 2024-25, sef menter oedd yn adeiladu ar ddulliau monitro a roddwyd ar waith yn ystod awdit mewnol gan TiAA yn 2023-24. Nodwyd 10 Safon i ganolbwyntio arnynt yn ystod y flwyddyn, gan edrych ar ddulliau cryfhau / diweddaru camau gweithredu yn ôl yr angen. Yn sgil effaith sylweddol y broses ailstrwythuro ar holl weithredoedd y Brifysgol yn ail hanner y flwyddyn, ni lwyddwyd i gwblhau'r weithgaredd hon yn llawn. Fodd bynnag, o'r hyn a lwyddwyd i'w gwblhau a'i wirio, roedd cydymffurfiaeth y Brifysgol â'r safonau unigol yn uchel.

## PRIF-FFRYDIO'R GYMRAEG MEWN DATBLYGIADAU NEWYDD

- Cafwyd Adolygiad Gwella Ansawdd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn ystod y flwyddyn. Rhoddodd yr adolygiad hwnnw gymeradwyaeth benodol "i'r graddau y mae'r Gymraeg a dwyieithrwydd wedi eu hymwreiddio'n ddwfn yn niwylliant y Brifysgol, a hynny'n amlwg er budd y staff a'r myfyrwyr i gyd".

- Cyfeiriwyd eisoes at yr elfennau ymwybyddiaeth iaith a ddarparwyd fel rhan o fodiwl newydd 'Mwy na Geiriau: Y Gymraeg fel Sgíl Glinigol' Ysgol Feddygol Gogledd Cymru. Datblygiad arall a welodd yr un negeseuon yn cael eu darparu ochr yn ochr â'r dysgu oedd modiwl ar wasanaethau clinig cyfraith gan yr Ysgol Hanes, Y Gyfraith a Gwyddorau Cymdeithas. Yn achos y modiwl hwn, sy'n darparu hyfforddiant i fyfyrwyr is-raddedig allu cynghori ar achosion sy'n codi mewn clinigau cyfraith stryd yn y gymuned, darparwyd hyfforddiant ar yr agweddau dwyieithog y dylid eu cadw mewn cof gan yr ymarferwyr. Rhoddwyd pwyslais ar yr angen i allu darparu gwasanaethau dwyieithog ar gyfer cynulleidfa sydd wedi ei gwreiddio mewn ardal sydd â'r Gymraeg fel iaith gymunedol a grym hynny wrth ddelio ag unigolion sydd, o bosib, yn ymofyn cyngor cyfreithiol ar faterion sensitif.

- Roedd 2024-25 yn flwyddyn a welodd ail-ddylunio rhai o brif dudalennau gwefan y Brifysgol; yn benodol, y tudalennau hynny sy'n nodi holl gynigion academaidd y sefydliad ac sydd at ddefnydd darpar-fyfyrwyr yn bennaf. Bu ymgynghori rhwng y tîm a oedd yn arwain ar y gwaith technegol â swyddogion Canolfan Bedwyr er mwyn datblygu is-adran newydd ar dudalennau cyrsiau unigol. Nod yr is-adran newydd, sydd wedi ei gosod ar dudalen pob rhaglen ddysgu, yw hyrwyddo'r cyfleoedd ar gael i astudio drwy'r Gymraeg neu yn ddwyieithog. Rhoddir gwybodaeth hefyd am y cyfleoedd am gyllid penodol am astudio drwy'r Gymraeg; diwylliant dwyieithog y Brifysgol a'r manteision dros astudio drwy'r Gymraeg.

## BLAENORIAETHAU DATBLYGU

| CAM GWEITHEDU | CYFRIFOLDEB |
|---|---|
| | |
| Adolygu Polisi Iaith Gymraeg y Brifysgol, yn cynnwys y Cod Ymarfer ar Benodi Staff. | Pwyllgor y Gymraeg a Diwylliant / Canolfan Bedwyr / Adnoddau Dynol |
| Penodi swyddog recriwtio i ganolbwyntio ar ysgolion y de ddwyrain a chreu rhaglen waith fesuradwy, er mwyn sicrhau bod lle amlwg i'r Gymraeg wrth recriwtio myfyrwyr yn 2025-26. | Pennaeth Recriwtio Myfyrwyr |
| Monitro 10 Safon yn flynyddol | Grŵp Polisi Iaith Gymraeg / Canolfan Bedwyr |

## SAFONAU GWEITHREDU

Llwyddwyd i gyflawni yn erbyn pob un o'r amcanion a osodwyd yn adroddiad 2023-24.

O safbwynt rhoi'r Safonau Gweithredu ar waith a chefnogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod 2024-25, tynnir sylw at ddatblygiadau isod:

### PROSESAU RECRIWTIO

- Bu i'r Brifysgol gymryd rhan lawn ym mhrosiect Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd a Môn i edrych ar brosesau recriwtio a'u llwyddiant wrth ddenu siaradwyr Cymraeg. Bu'r Brifysgol hefyd yn cymryd rhan amlwg gyda phrosiect dan nawdd ARFOR yn y maes hwn. Wedi'r cyfnod ail-strwythuro, ac wrth i'r Brifysgol fod mewn sefyllfa maes o law i recriwtio staff unwaith yn rhagor, y bwriad yw rhoi argymhellion y prosiectau hyn ar waith.

### CYNYDDU DEFNYDD

- Safodd 14 o aelodau staff y Brifysgol Dystysgrif Sgiliau Iaith y Coleg Cymraeg Genedlaethol yn 2024-25 (9 ymgeisydd yn fwy nag yn 2023-24), gyda phob un yn llwyddo yn yr arholiadau llafar ac ysgrifenedig a gynhaliwyd yn ystod Gwanwyn 2025. Mae'r TSI yn fodd effeithiol o rymuso aelodau unigol i fod â hyder yn eu sgiliau llafar ac ysgrifenedig ac yn weithgaredd sy'n denu cofrestriadau gan dimau cyfan yn aml. Darperir cyfres o sesiynau paratoi ac adolygu ar gyfer y

cyfnod asesu gan Diwtor Sgiliau Iaith Uwch Canolfan Bedwyr. Ymhlith y rhai a enillodd y cymhwyster yn 2024-25 oedd 4 aelod staff a fu'n dilyn y cwrs gloywi a chodi hyder, Prosiect X. Dyma garreg filltir sylweddol yn nhaith y criw yma'n benodol a chadarnhad pellach o effeithiolrwydd dull dysgu Prosiect X o ddatblygu hyder a sgiliau aelodau staff nad ydynt yn 'ddysgwyr' traddodiadol ond sy'n awyddus i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith.

- Cymerodd yr ap newid ymddygiad iaith, ARFer gamau breision ymlaen yn ystod y flwyddyn, gan weithio gyda datblygwr meddalwedd i ddylunio platfform rhyngweithiol ar gyfer ffonau symudol a thabledi. Profwyd yr ap newydd yn helaeth tuag at ddiwedd y flwyddyn academaidd a rhagwelir y bydd cynnydd pellach yn y defnydd o'r ap yn 2025-26, wrth iddo gael ei ddefnyddio gan weithleoedd ar hyd a lled Cymru o fis Awst 2025 ymlaen.

- Yn ystod y flwyddyn bu staff y Brifysgol yn y Senedd yng Nghaerdydd yn cyflwyno i'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol. Roeddent yn bwydo eu harbenigedd ym maes technoleg iaith, newid ymddygiad iaith a chynllunio iaith i *Ymchwiliad Cymraeg i Bawb?* y pwyllgor.

- Addaswyd a diweddarwyd y cyflwyniad a roddir ar y Gymraeg yn y Brifysgol yn y sesiynau cynefino i staff newydd yn ystod y flwyddyn, gan gyfeirio'n benodol at y pecyn hyfforddiant mandadol a'r cyfleoedd ychwanegol sydd gan staff i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn y gwaith – e.e. wrth i Prosiect X, sef cwrs gloywi iaith a newid ymddygiad, barhau i recriwtio o blith y gweithlu.

- Mae staff Canolfan Bedwyr yn parhau i hwyluso sesiynau sgwrsio gyda dysgwyr ar y lefelau uwch. Maent hefyd yn cefnogi Deoniaid y Gymraeg yn y colegau academaidd pan y bydd sesiynau fel 'paned a sgwrs' i hybu defnydd o'r Gymraeg yn cael eu trefnu ganddynt drwy gydol y flwyddyn.

- Yn ystod y flwyddyn, mae'r Brifysgol wedi cefnogi ymgyrchoedd cenedlaethol yn ymwneud â hybu'r Gymraeg a chynyddu'r defnydd ohoni. Cefnogwyd ymgyrch #DefnyddiaDyGymraeg Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg a chafwyd dathliad anffurfiol ynghyd â gostyngiadau arbennig ar ddiodydd poeth ym mannau bwyta'r Brifysgol (am roi cynnig ar y Gymraeg wrth archebu) fel rhan o Ddiwrnod Shwmae Su'mae 2024.

## HYFFORDDIANT IAITH

- Yn 2024-25, roedd 140 o aelodau staff yn dilyn cyrsiau iaith Cymraeg Gwaith gan Ganolfan Bedwyr yn ystod oriau gwaith yn y Brifysgol a hynny ar y lefelau canlynol:

| **Lefelau dysgu staff 2024-25** | |
|---|---|
| **Lefel 1 / Dechreuwyr** | 19 |
| **Lefel 2 / Mynediad** | 35 |
| **Lefel 3 / Sylfaen** | 23 |

| | |
|---|---|
| **Lefel 4 / Canolradd** | 24 |
| **Lefel 5 a 6 / Uwch** | 18 |
| **Lefel 7 / Hyfedredd** | 21 |

Yn 2024-25 eto, mae’r dilyniant o un lefel i’r llall yn galonogol iawn ar y cyrsiau hyn a’r niferoedd uchel ar y lefelau uwch yn tystio i lwyddiant y cynllun hwn wrth gyflwyno hyfforddiant iaith yn ystod oriau gwaith. Mae cynnydd penodol wedi bod ar Lefel 2/Mynediad – o 24 yn 23/24 i 35 yn 24/25. Mae hyn oherwydd llwyddiant y cwrs Dechreuwyr 12 wythnos a lansiwyd yn 23/24. Mae’r niferoedd uchel (21) ar Lefel 7/ Hyfedredd yn tystio i effaith y mentrau newydd a lansiwyd i gefnogi’r garfan hon.

- Mae nifer o staff (a myfyrwyr ôl-radd) y Brifysgol hefyd yn dilyn cyrsiau yn y gymuned drwy Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin (yn ogystal ag ar-lein). Cofrestrodd 52 o aelodau staff a myfyrwyr ôl-radd ar gyrsiau yn y gymuned yn ystod 2024-25, gyda nifer ohonynt hefyd yn dilyn y cyrsiau Cymraeg Gwaith uchod.

| **Aelodau staff a myfyrwyr ôl-radd ar gyrsiau DCGO 2024-25** | |
|---|---|
| **Mynediad 1** | 13 |
| **Mynediad 2** | 16 |
| **Sylfaen 1** | 4 |
| **Sylfaen 2** | 5 |
| **Canolradd 1** | 1 |
| **Canolradd 1 a 2** | 1 |
| **Canolradd 2** | 4 |
| **Uwch 1** | 2 |
| **Uwch 2** | 1 |
| **Uwch 3** | 3 |
| **Gloywi** | 2 |

## SGILIAU CYMRAEG STAFF Y BRIFYSGOL AR 31 GORFFENNAF 2025 YN SEILIEDIG AR GATEGORÏAU SWYDDI

### HOLL STAFF Y BRIFYSGOL: SGILIAU SIARAD CYMRAEG

| | Siarad Cymraeg | Siarad ychydig | Dim yn siarad Cymraeg | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Academaidd** | 196 | 172 | 239 | **607** |
| | 32% | 28% | 39% | **100%** |
| **Academaidd Cysylltiedig** | 134 | 82 | 29 | **245** |
| | 55% | 33% | 12% | **100%** |
| **Clerigol** | 213 | 69 | 36 | **318** |
| | 67% | 22% | 11% | **100%** |
| **Maniwal** | 83 | 42 | 53 | **178** |
| | 47% | 24% | 30% | **100%** |
| **Technegol** | 41 | 26 | 16 | **83** |
| | 49% | 31% | 19% | **100%** |
| **Ymchwil** | 34 | 41 | 74 | **149** |
| | 23% | 28% | 50% | **100%** |
| **Cyfanswm** | **701** | **432** | **447** | **1580** |
| | **44%** | **27%** | **28%** | **100%** |

### HOLL STAFF Y BRIFYSGOL: SGILIAU DARLLEN CYMRAEG

| | Gallu darllen Gymraeg | Gallu darllen rhywfaint o Gymraeg | Dim yn gallu darllen Cymraeg | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Academaidd** | 193 | 152 | 251 | **596** |
| | 33% | 26% | 42% | **100%** |
| **Academaidd Cysylltiedig** | 131 | 78 | 34 | **243** |
| | 54% | 32% | 14% | **100%** |
| **Clerigol** | 191 | 68 | 41 | **300** |
| | 65% | 21% | 14% | **100%** |
| **Maniwal** | 77 | 40 | 56 | **173** |
| | 45% | 23% | 32% | **100%** |
| **Technegol** | 40 | 25 | 18 | **83** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 48% | 30% | 22% | **100%** |
| **Ymchwil** | 37 | 39 | 74 | **150** |
| | 25% | 26% | 50% | **100%** |
| **Cyfanswm** | **669** | **402** | **474** | **1545** |
| | **44%** | **26%** | **31%** | **100%** |

**HOLL STAFF Y BRIFYSGOL: SGILIAU YSGRIFENNU CYMRAEG**

| | Gallu ysgrifennu yn Gymraeg | Gallu ysgrifennu rhywfaint yn Gymraeg | Dim yn gallu ysgrifennu'n Gymraeg | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Academaidd** | 178 | 132 | 279 | **589** |
| | 30% | 22% | 47% | **100%** |
| **Academaidd Cysylltiedig** | 121 | 70 | 52 | **243** |
| | 50% | 29% | 21% | **100%** |
| **Clerigol** | 179 | 70 | 52 | **301** |
| | 59% | 23% | 17% | **100%** |
| **Maniwal** | 69 | 37 | 66 | **172** |
| | 40% | 22% | 38% | **100%** |
| **Technegol** | 38 | 21 | 24 | **83** |
| | 46% | 25% | 29% | **100%** |
| **Ymchwil** | 32 | 35 | 82 | **149** |
| | 21% | 23% | 55% | **100%** |
| **Cyfanswm** | **617** | **365** | **555** | **1537** |
| | **40%** | **24%** | **36%** | **100%** |

GOFYNION IAITH SWYDDI A SGILIAU SIARAD CYMRAEG Y RHAI A GAFODD EU PENODI IDDYNT

| CATEGORI SWYDD | GOFYN IAITH | Siarad Cymraeg | Siarad ychydig | Dim yn siarad Cymraeg | Dim gwybodaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| **Academaidd** | Hanfodol | 2 | | | |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% |
| **Academaidd Cysylltiedig** | Hanfodol | 5 | 1 | | |
| | | 83% | 17% | 0% | 0% |
| **Clerigol** | Hanfodol | 15 | 1 | | |
| | | 94% | 6% | 0% | 0% |
| **Maniwal** | Hanfodol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% |
| **Technegol** | Hanfodol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% |
| **Ymchwil** | Hanfodol | 5 | | | |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% |
| | | | | | |
| **Academaidd Cysylltiedig** | Hanfodol neu Barodrwydd i Ddysgu at lefel benodol | 1 | | | |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% |
| **Clerigol** | Hanfodol neu Barodrwydd i Ddysgu at lefel benodol | 1 | 1 | | |
| | | | | | |
| **Academaidd** | Dymunol | 4 | 15 | 24 | |
| | | 9% | 35% | 56% | 0% |
| **Academaidd Cysylltiedig** | Dymunol | 2 | 3 | 3 | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 25% | 38% | 38% | 0% |
| **Clerigol** | Dymunol | 5 | 3 | 4 | 1 |
| | | 38% | 23% | 31% | 8% |
| **Maniwal** | Dymunol | 3 | 2 | | |
| | | 60% | 40% | 0% | 0% |
| **Technegol** | Dymunol | 2 | 1 | 3 | |
| | | 33% | 17% | 50% | 0% |
| **Ymchwil** | Dymunol | 2 | 8 | 11 | 1 |
| | | 9% | 36% | 50% | 5% |
| | | | | | |
| **Academaidd** | Dim gofyn iaith penodol | | 1 | | |
| | | 0% | 100% | 0% | 0% |
| **Ymchwil** | Dim gofyn iaith penodol | | 2 | 9 | |
| | | 0% | 18% | 82% | 0% |
| **Cyfanswm** | | **47** | **38** | **54** | **2** |
| | | **33%** | **27%** | **38%** | **1%** |

## BLAENORIAETHAU DATBLYGU

| **CAM GWEITHEDU** | **CYFRIFOLDEB** |
|---|---|
| Ail-gyflunio'r ddarpariaeth dysgu Cymraeg i staff yn dilyn yr ailstrwythuro | Canolfan Bedwyr |
| Fel ymateb uniongyrchol i'r ail-strwythuro, cyflwyno cynllun newydd o gefnogaeth - 'Datblygu a chefnogi timau dwyieithog mewn cyfnod o newid'. | Canolfan Bedwyr |
| Peilota technolegau trawsgrifio a thechnolegau eraill i hwyluso dwyieithrwydd pwyllgorau. | Gwasanaethau Digidol / Canolfan Bedwyr / Ysgrifenydd y Brifysgol |
| Sicrhau bod data am allu iaith staff mor llawn â phosib a bod y wybodaeth yn cael ei gynnwys yn system iTrent. | Adnoddau Dynol / Penaethiaid Ysgolion Academaidd / Penaethiaid Gwasanaethau Proffesiynol |

## CWYNION

Derbyniwyd dwy gwyn ffurfiol o dan y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau yn ystod 2024-25.

## CASGLIADAU

Fel y nodwyd ar ddechrau'r adroddiad, bu 2024-25 yn flwyddyn o ddau hanner i raddau helaeth. Fodd bynnag, er gwaethaf yr heriau a brofwyd yn sgil y broses ailstrwythuro, bu'n gyfnod a welodd gyflwyno datblygiadau cadarnhaol yn y meysydd isod:

**Hyfforddiant a Chydymffurfiaeth** – 977 aelod staff wedi cwblhau pecyn hyfforddiant mandadol ar y Polisi Iaith; ymwybyddiaeth a chyfrifoldeb wedi cynyddu ar draws y sefydliad.

**Datblygiadau Academaidd** – Lansio modiwl "Mwy na Geiriau: Y Gymraeg fel Sgíl Glinigol" ar gyfer myfyrwyr meddygol; paratoi ar gyfer cofrestru diofyn ar fodiwlau cyfrwng Cymraeg yn 2025–26.

**Cymuned Ehangach y Brifysgol** – Digwyddiadau cyhoeddus sylweddol yn Pontio; presenoldeb ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol, a lansio adnoddau at ddefnydd cenedlaethol megis pecyn recriwtio dwyieithog ac ap ARFer i newid ymddygiad iaith.

**Technoleg a Gwasanaethau** – Datblygiad eBortffolio dwyieithog; cefnogaeth ddigidol i fyfyrwyr a staff; cryfhau cynnwys Cymraeg ar wefan y Brifysgol.

Yna, wrth ystyried y broses ailstrwythuro, nodir bod asesiadau effaith ar y Gymraeg wedi eu cynnal a phryderon am golli staff Cymraeg eu hiaith a sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau wedi eu nodi fel rhan o'r broses ymgynghori.

Wrth edrych ymlaen at 2025-26, bydd y Brifysgol yn gweithio oddi mewn i strwythur staffio newydd ac yn gweithredu Safonau'r Gymraeg er mwyn cyflawni'r amcanion canlynol:

**Ethos** – Creu gweithle gwirioneddol ddwyieithog drwy adolygu polisïau, peilota technolegau trawsgrifio, a chynnig cefnogaeth i dimau mewn cyfnod o newid.

**Marchnata a Recriwtio** – Sicrhau bod y Brifysgol yn ddewis cyntaf i fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith ar gyfer eu meysydd astudio, gan gynnwys gweithredu brand newydd, cyhoeddi rhagor o gynnwys ar y wefan ac ar y cyfryngau cymdeithasol, a chefnogi gwaith swyddog recriwtio penodol ar gyfer rhanbarthau Cymru.

**Addysgu a Dysgu** – Cynyddu cyfranogiad yn y cyfleoedd i astudio drwy'r Gymraeg, gyda chofrestru diofyn ar fodiwlau a datblygu dashfwrdd monitro.

**Ymchwil** – Monitro cyhoeddiadau Cymraeg, a chynnal awdit o brosiectau ymchwil ym maes dwyieithrwydd.

**Profiad Myfyrwyr** – Gwella profiad myfyrwyr Cymraeg eu hiaith trwy gynnal digwyddiadau, sicrhau cyfranogiad wrth drefnu ffair swyddi, sefydlu gofod astudio penodol, a sicrhau boddhad uchel mewn arolygon sy'n cael eu cynnal gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.